

## Thema'r Tymor: Teithio

### Blynyddoedd 5 a 6

#### Cymraeg

Byddwn yn darllen ac ynymateb i "Chwedl Branwen" yn ystod y tymor gan ysgrifennu portread am y cawr Bendigeidfran, cadw dyddiadur drwy llygaid Branwen ac yn cywain gwybodaeth am y ddrudwy. Byddant hefyd yn ysgrifennu llythyr oddi wrth Branwen at ei brawd Bendigeidfran yn son am eibwyd. Bydd cyfle i greu lluniau nhw ei hunan i gyd fynd gyd a'r stori ac yn atgyfnerthu gwaith gramadegol a bydd yn codi yn ystod y tymor.

#### Saesneg

"Gwydion and the Flying Wand" bydd ein llyfr am y y tymor gan Jenny Sullivan. Bydd cyfle i ysgrifennu llythron, dyddiaduron, straeon a phosteri ei hunan. Byddant yn ymateb i amrywiaeth o gerddi ac yn ysgrifennu rhai ei hunan. Byddant yn parhau i ymarfer ei llawysgrifen ac yn adolygu strategaethau sillafu er mwyn hwyluso'i gwaith ymhellach.

#### Mathemateg

Byddwn yn edrych ar ddegolion, ffracsiynau a chanrannau yn ystod y tymor gan drefnu rhifau o'r mwyaf i'r lleiaf ac i'r gwrthwyneb. Byddwn yn dysgu am amser a darllen amserlenni yn gywir ac yn creu cwestiynau nhw ei hunan am yr amserlenni. Byddant yn talgrynnu rhifau i'r 10, 100 a 1000 agosaf ac wedi rhannu ffigurau. Byddwn yn parhau gyda'n tablau ac yn atgyfnerthu gwaith lluosu a rhannu gan ddysgu am rifau sgwâr. Byddwn yn dysgu am fâs hefyd gan drin a thrafod arian gan newid arian tramor.

Byddwn yn ymestyn ein dealltwriaeth am siap yn ystod yr hanner tymor cyntaf. Byddwn yn astudio cymesur, siapiau 2d a 3d, parallel a pherpendicwlar, rhwydi, cyfesyrynnau ac onglau. Yn yr ail hanner tymor byddwn yn edrych ar siartiau bar, graffiau llinell, siart cylch, amrediad, modd, canolrif a cymedr.

#### Gwyddoniaeth

Byddwn yn atgoffa'n gilydd beth yw grym, magnet a disgyrchiant. Byddwn yn arbrofi i weld beth sydd yn digwydd i bwysau mewn dŵr a beth yw effaith grym ffrithiant. Byddwn hefyd yn dysgu am wrthiant aer ac yn cyflwyno beth sydd tu hwnt i'r rddae. Ymchwilio i'r planedau a chreu cronfa data amdanynt.

#### Hanes

"Y Tuduriaid" y byddwn yn astudio yn ystod y tymor gan ddysgu am Harri Tudur a brwydr Bosworth. Byddwn yn symud i astudio Harri'rwythfed a'u ddylanwad ar y cyfnod gan ddysgu am yr armada. Mewn grwpiau bydd y plant yn darganfod ac yn adrodd am enwogion y cyfnod fel pwyntpŵer neu bamffled gan ateb y cwestiwn beth oedd yn arbennig ynglŷn â chyfnod y Tuduriaid.

### Daearyddiaeth

Byddwn yn parhau i edrych ar Botswana gan edrych ar broblemau amgylcheddol sydd yn digwydd yn y wlad honno. Byddwn yn holi cwestiynau daearyddol am luniau'r wlad ac yn edrych ar batrymau daearyddol sydd yn digwydd o fewn y wlad. Byddwn hefyd yn sefydlu Pwyllgor Eco'r ysgol ganfod y weithredol o amgylch yr Ysgol gan edrych pa rinweddau allwn ni gweithredu arno yn syth.

### Celf a Dylunio

Celf digidol y byddwn yn canolbwyntio arno yn ystod y tymor gan ddysgu am y cyfrwng ac edrych ar waith L S Lowry. Byddwn yn tynnu lluniau gyda'r camera ac yn arbrofi gyda rhaglenni cyfrifiadur. Creu llyfr fflic gyda'i lluniau ar y cyfrifiadur. Byddwn hefyd yn ymgeisio mewn cystadleuaeth ffotograffiaeth y ford gron.

### DylunioTechnoleg

Byddwn yn ymchwilio wahanol ffactorau am fframiau ac edrych ar beth sydd yn rhaid i ni wneud i greu ffrâm llun. Byddwn yn edrych ar wahanol deunyddiau a sut fydd y ffrâm yn edrych.

### TGCh

Bydd y disgyblion yn asesu ei hunan i weld pa sgiliau sydd angen datblygu ymhellach ganddynt. Byddant yn creu prosiect trawsgwricwlaidd agored i arddangos y sgiliau oedd angen datblygu ymhellach arnynt. Byddant yn ail greu lluniau gan ddefnyddio gwaith arlunydd enwog ac yn creu podcast ei hunan. Byddant yn defnyddio'r we i atgyfnerthu gwaith personol ac yn creu graffiau ar y cyfrifiadur.

### Cerddoriaeth

Byddwn yn dysgu ein hanthem Genedlaethol ac yn paratoi ar gyfer Dydd Gwyl Dewi. Bydd y plant yn cael cyfle i gyfansoddi gwaith creadigol ei hunan a dod i adnabod offerynnau amrywiol. Byddwn hefyd yn edrych ar anthemau genedlaethol gwledydd eraill.

### AddysgGrefyddol

Byddwn yn edrych ar lyfrau sanctaidd y tymor yma. Byddwn yn edrych ar bwysicrwydd y Beibl i Gristnogion, sut mae'n cael ei rhannu, sut mae wedi cael ei cyfieithu i wahanol ieithoedd, hanes William Morgan. Byddwn yn edrych ar bwysigrwydd y Qur'an i Fwslimiaid. Bydd y plant yn astudio wythnos Y Pasg hefyd.

## AddysgGorfforol

Yn ystod y tymor byddwn yn nofio, ehangu ar ein sgiliau pêl droed a phêl rhwyd a cyn ehangu ar ein dealltwriaeth o weithgareddau antur. Byddwn hefyd yn dysgu am wahanol ddulliau o ddawnsio gan gynyddu ein ffitrwydd. Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o iechyd a ffitrwydd drwy'r gweithgareddau.

## ABCH

Byddant yn dysgu am y wlad o'n cwmpas a sut i ofalu amdano a pheidio dinistrio'r hyn sydd o'u cwmpas. Meddwl am y dirwedd naturiol ac ysgrifennu cerdd amdano. Trin a thrafod darlun o iechyd a beth a olygir wrth hyn gan gymryd cam ymhellach i sicrhau a chadw cofnod ar sut i gadw'n ffit ac yn iach. Byddwn hefyd yn dilyn y thema "pobl yw pobl" a sut yr ydynt yn debyg neu'n wahanol i bobl a phlant eraill o amgylch y byd i gyd.